Dyddiad cyflwyno: 05 Rhagfyr 2017

Cwynion ac Ymchwiliadau Cyfoeth Naturiol Cymru

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth isod, dyddiedig 31 Hydref 2017, sy'n cael ei egluro yn eich neges e-bost dyddiedig 6 Tachwedd 2017, i ofyn am wybodaeth ynghylch Cwynion ac Ymchwiliadau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiynau isod a nodi ein hatebion cyfatebol.

1. **Manylion nifer y cwynion a wnaed ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y blynyddoedd 2013-14, 2014-15, 2015-16, 2016-17 (neu flwyddyn galendr, pa un bynnag yw'r mwyaf hwylus);** ***eglurwyd ei fod yn golygu'r nifer o achosion o fynegi pryder a gafodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (neu Swyddfa Archwilio Cymru) ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru.***

Rydym ni'n cadw rhywfaint o wybodaeth o ran achosion o fynegi pryder a gafodd Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru ar ffurf gohebiaeth. Cofnodir hyn mewn cofnodlyfr gohebiaeth fesul blwyddyn ariannol o fis Ionawr 2016, a chyn hyn yn rhan o gronfa ddata ohebiaeth ehangach, ac rydym wedi cymryd y wybodaeth ganlynol o'r gronfa ddata o ran nifer yr achosion o fynegi pryder a gafwyd.
16/17 – 5
15/16 – 2
2014 – 2

2. Manylion natur y cwynion hynny ar gyfer y blynyddoedd 2013-14, 2014-15, 2015-16, 2016-17 (neu flwyddyn galendr, pa un bynnag yw'r mwyaf hwylus) ac wedi eu gosod mewn categorïau:
a) Torri Deddf Diogelu Data (gwybodaeth)
b) Ysbïo Corfforaethol
c) Mynd yn groes i gyfrinachedd masnachol
d) Mynd yn groes i ddiwydrwydd dyladwy
e) Mynd yn groes i'r broses o dendro a chaffael

Rydym ni'n cadw gwybodaeth ynghylch y pryderon a godwyd, er hynny nid yw'r disgrifiadau'n cyfateb yn union i'r categorïau a osodwyd uchod. Felly rwyf i wedi nodi isod y mathau o faterion a godwyd, a fydd, gobeithio o ddefnydd ichi.

16/17 – 2 caffael/tendro, 1 rheolaeth ariannol, 1 rheoli cynefin naturiol, 1 rheoli adnoddau naturiol.
15/16 – 1 caffael/tendro; 1 rheolaeth ariannol/gweithredol
2014 – 1 materion ariannol yn ymwneud â thyrbinau gwynt, 1 caffael/tendro

3. Manylion unrhyw ymholiadau i Gyfoeth Naturiol Cymru o safbwynt y categorïau uchod (a-e) ar gyfer y blynyddoedd 2013-14, 2014-15, 2015-16, 2016-17 (neu flwyddyn galendr, pa un bynnag yw'r mwyaf hwylus).
4. Os ydynt wedi eu cwblhau, manylion canlyniadau unrhyw un o'r ymchwiliadau uchod.
Mae'r ddau gwestiwn uchod yn cyfeirio at 'ymholiadau' ac rydych chi wedi cadarnhau mai ystyr hyn yw archwiliad, un ai yn rhan o archwiliad cyfrifon neu yn rhan o astudiaeth o dan adran 145A Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac ystyr 'manylion' yw disgrifiad amlinellol o'r gwaith a wnaed.

Nid ydym yn cadw cofnodion o unrhyw archwiliadau a wnaed yn benodol i ymateb i achosion o fynegi pryder y cyfeiriwyd atynt uchod, er bod dau o'r pryderon sy'n ymwneud â materion caffael/tendro yn 2016/17 yn cyfeirio at gontractau gwerthu pren y cyfeirir atynt isod.

Rydym ni'n cadw adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2016. 'Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru' ac mae hwn ar gael ar dudalennau cyhoeddiadau Gwefan Swyddfa Archwilio Cymru: http://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau Dyma ganlyniad gwaith a wnaed yn rhan o'n rhaglen o archwiliadau a gynlluniwyd ac nid yn ymateb i bryderon penodol.

Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd femorandwm atodol ar gontractau gwerthu pren i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru) sy'n ymhelaethu ar faterion perthnasol i'w adroddiad ar gyfrifon 2015-16 Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyflwynwyd y cyfrifon, yn cynnwys yr adroddiad ar y cyfrifon, o flaen y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2017 ac y maen nhw ar gael yma: http://www.senedd.assembly.wales/documents/s61639/Natural%20Resouces%20Wales%20Annual%20Accounts%202015-16%20March%202017.pdf Fe gymerodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth ei hun ynghylch y materion yn ymwneud â chontractau gwerthu pren. Mae manylion y gwaith hwnnw, ac adroddiad y Pwyllgor ei hun ar gael yma:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=17295

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir